SESIWN 3: LLUNIAU SY'N ADRODD STORI

Ystod oedran: 5-8 oed **Amser: 1 awr**

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn trin a thrafod sut y gall lluniau roi gwybodaeth bwysig i ni am fywydau pobl. Byddant yn cynllunio lluniau sy'n dweud rhywbeth wrth eraill am eu bywydau nhw yn yr ysgol, ac yna byddant yn creu'r lluniau hyn gan ddefnyddio camerâu neu ddeunyddiau lluniadu. Byddant yn cyflwyno'u lluniau ar lafar ac yn rhannu'r straeon sy'n gefndir i'w lluniau ag eraill yn y dosbarth.

Amcanion dysgu

- Sylweddoli sut y gall lluniau gyfleu gwybodaeth bwysig am bobl a lleoedd.
- Trin a thrafod sut y mae pob llun yn cynnwys negeseuon a all fod yn dda, yn ddrwg, neu'n niwtral.
- Creu llun sy'n dweud rhywbeth wrth eraill am fywyd yn yr ysgol.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn pwyso a mesur sut y gall cyfansoddiad gofalus helpu i egluro'r stori a geir yn y llun.
- Bydd y dysgwyr yn cynllunio llun sy'n cyfleu gwybodaeth am eu bywyd yn yr ysgol.
- Bydd y dysgwyr yn creu llun sy'n cynrychioli agwedd ar fywyd yr ysgol.

Cwestiynau allweddol

- Pa negeseuon a syniadau y byddech chi'n hoffi i'ch llun chi eu cyfleu ar y thema chwarae, helpu neu rannu?
- Pwy fydd yn eich llun chi?
- Beth y bydd y bobl yn eich llun chi yn ei wneud?
- Ble y bydd y bobl yn eich llun chi?
- Pryd fyddwch chi'n tynnu'r llun?
- Pam yr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill?
- Beth yr ydych am ei ddangos i eraill trwy dynnu'r llun hwn?
- Beth yw'r stori sy'n gefndir i'r llun?

Adnoddau

- Sioe sleidiau: sleidiau 18 i 21
- Camerâu (neu ffenestri (darnau sgwâr neu hirsgwar o garden y gallwch edrych drwyddynt) a phensiliau braslunio os nad oes camerâu ar gael)
- Taflen waith: *Pa stori fyddwch chi'n ei hadrodd?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Amlinelliad o'r gweithgareddau

Tasg gychwynnol *(10 munud)*
Sut i greu llun

- Gan ddefnyddio sleidiau 19-21, ewch ati i gyflwyno'r dysgwyr i'r term 'cyfansoddiad'. Trafodwch sut y mae'r llun wedi'i fframio a ble y mae'r bobl wedi'u lleoli ynddo. Eglurwch fod cyfansoddiad llun yn helpu'r rheiny sy'n edrych arno i ddeall beth sy'n digwydd. Cyfeiriwch at nodiadau'r sioe sleidiau i gael gwybodaeth gefndir i'w rhannu am y lluniau.
- Trafodwch sut y mae'r lluniau'n portreadu pobl a lleoedd mewn ffyrdd amrywiol, ac awgrymwch fod llun yn gallu bod yn dda, yn ddrwg, neu'n niwtral. Efallai y byddwch chi am ddangos i'r dosbarth rai toriadau o luniau o bapur newydd lleol i ddarlunio hyn.
- Cyflwynwch y dysgwyr i'r cyfarpar y byddant yn ei ddefnyddio i greu eu lluniau, a gwnewch yn siŵr eu bod yn deall sut y mae'n gweithio. Gallai'r cyfarpar fod yn gamerâu neu'n ffenestri (darnau sgwâr neu hirsgwar o garden y gallwch edrych drwyddynt) a phensiliau braslunio (os nad oes camerâu ar gael).

Gweithgaredd 3.1 *(15 munud)*
Pa stori y byddwch yn ei hadrodd?

- Atgoffwch y dysgwyr o'r tri chategori y bu iddynt ddosbarthu'r lluniau iddynt yn ystod Sesiwn 1: chwarae, helpu a rhannu. Gofynnwch iddynt ystyried pa luniau y byddai modd eu tynnu yn yr ysgol ym mhob un o'r categorïau hyn, er enghraifft: plant yn helpu i glirio'r neuadd fwyta neu'r maes chwarae, plant yn darllen llyfr gyda'i gilydd, neu blant yn sgipio yn ystod amser chwarae. Beth y gallai'r lluniau hyn ei ddweud wrth eraill am yr ysgol?
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach o hyd at bedwar dysgwr, a gofynnwch iddynt drafod yr hyn y byddent yn hoffi i'r lluniau ei ddweud wrth eraill am fywyd bob dydd yn yr ysgol. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau allweddol a ganlyn:
    - Pa negeseuon a syniadau y byddech chi'n hoffi i'ch llun chi eu cyfleu ar y thema chwarae, rhannu neu helpu?
    - Pwy fydd yn eich llun chi?
    - Beth y bydd y bobl yn eich llun chi yn ei wneud?
    - Pryd fyddwch chi'n tynnu'ch llun chi? A fyddwch chi'n tynnu'r llun ar adeg arbennig yn ystod diwrnod, wythnos neu flwyddyn yr ysgol?
    - Ble y bydd y bobl yn eich llun chi?
    - Pam yr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill? Beth ydych chi am ei ddangos i eraill drwy dynnu'r llun hwn? Beth yw'r stori sy'n gefndir i'r llun?
- Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau cryno i ateb y cwestiynau hyn ar daflen gweithgaredd *Pa stori fyddwch chi'n ei hadrodd?* Bydd hyn yn eu helpu i adrodd eu stori yn ystod Sesiwn 4.

Gweithgaredd 3.2 *(20 munud neu ragor)*
Cynllunio a chreu lluniau

- Yn eu grwpiau bach, rhowch gyfle i'r dysgwyr gynllunio manylion y lluniau o'u dewis. Atgoffwch y dysgwyr i gynnwys y bobl a'r lleoliad a drafodwyd ganddynt yn ystod Gweithgaredd 3.1.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Yna, gallai'r dysgwyr dynnu eu lluniau, neu wneud brasluniau, o amgylch yr ysgol am weddill y sesiwn. Serch hynny, argymhellir eich bod yn caniatáu rhywfaint o amser i'r dysgwyr greu eu lluniau yn ystod diwrnod neu wythnos ym mywyd yr ysgol er mwyn iddynt dynnu lluniau sy'n dangos agweddau mwy amrywiol ar fywyd yr ysgol, fel gwasanaeth neu glybiau'r ysgol. Dylai'r dysgwyr barhau i weithio yn eu grwpiau bach, ond dylent dynnu llun neu wneud braslun yn eu tro.

Sesiwn lawn *(15 munud)*

- Ar ddiwedd yr amser a neilltuwyd ar gyfer y gweithgaredd, dewch ynghyd fel dosbarth i rannu'r lluniau. Gallwch arddangos y lluniau a dynnwyd â chamera ar fwrdd gwyn rhyngweithiol, neu gallwch binio 'oriel' o frasluniau o amgylch y dosbarth.
- Rhowch ddigon o amser i'r dysgwyr rannu eu lluniau ag eraill yn y dosbarth. Gofynnwch i bob dysgwr rannu'r stori a adroddir gan ei lun â rhywun arall. Dylent ganolbwyntio ar ychydig o gwestiynau allweddol:
    - Pam ydych chi'n meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill?
    - Pa neges y mae'r llun yn ei chyfleu?
- Os yw sawl llun yn cyfleu neges debyg, gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r amser hwn i drafod pa un sydd fwyaf pwerus a pham yn eu tyb nhw.

Syniadau pellach

- Mae gweithgareddau'r sesiwn hon yn gyfle addas i chi a/neu'ch cynorthwyydd addysgu gynllunio a thynnu lluniau o amgylch yr ysgol ochr yn ochr â'ch dysgwyr. Gallwch ddefnyddio'r delweddau hyn i dynnu sylw at yr hyn sy'n arbennig o bwysig i chi/eich cynorthwyydd addysgu am agweddau ar fywyd yr ysgol, er enghraifft, y dysgwyr yn cydweithio wrth chwarae gêm yn ystod amser chwarae.
- Tynnwyd llawer o'r lluniau yn yr adnodd hwn gan blant yn Fiet-nam i ddarlunio agwedd ar fywyd eu cymuned sy'n bwysig iddyn nhw. Efallai yr hoffech gyfeirio'n ôl at sleidiau 19-21. Gallech ddefnyddio'r delweddau hyn i greu cysylltiadau â'r hyn y byddai eich dysgwyr chi yn hoffi ei ddathlu neu ei newid yn eu hysgol neu yn eu cymuned ehangach (gweler Sesiwn 6: Mynd gam ymhellach).
- Gofynnwch i'r dysgwyr rannu'n grwpiau o bedwar a llunio dwy restr:
    - Y pethau yr wyf yn eu hoffi am fy ysgol i.
    - Y pethau y byddwn yn hoffi eu newid am fy ysgol i.

  Dewch ynghyd i drafod y syniadau a nodwyd gan y dysgwyr. Yna, gallech fynd ati i ddatblygu un neu ddau o'r syniadau hyn yn Gynllun Gweithredu, gyda chymorth Cyngor yr Ysgol o bosibl.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Pa stori y byddwch yn ei hadrodd?

Pa negeseuon a syniadau y byddech yn hoffi i'ch llun eu cyfleu ar y thema chwarae, rhannu neu helpu?	
Pwy fydd yn eich llun chi?	
Beth y bydd y bobl yn eich llun chi yn ei wneud?	
Pryd y byddwch yn tynnu'ch llun chi?	
Ble y bydd y bobl yn eich llun chi?	
Pam yr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill? Beth yr ydych am ei ddangos i eraill drwy dynnu'r llun hwn? Beth yw'r stori sy'n gefndir i'r llun?	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.